Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Ebrill 27ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 7 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr Rob Parkes (cadeirydd), Raymond Bartley, Margaret Bowe, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref)

Ymddiheuriadau: Cyng. Shereen Devine, Colin Hughes, Gaynor Morgan Rees a Mark Young.

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod olaf y flwyddyn fwrdeistrefol bresennol.

246. Cyfarfod a Heddlu Gogledd Cymru. Croesawodd y cadeirydd yr Arolygydd Gareth Jones a fei'i gwahoddwyd i annerch y cyfarfod. Cyfeiriodd yr Arolygydd Jones at rai materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ar y cyd: (1) cyflymder gormodol / gyrru'n wrth gymdeithasol - roedd hyn yn ehangach nag yn Ninbych yn unig. Roedd swyddogion Dinbych a Rhuthun wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ac wedi cyflawni rhywfaint o lwyddiant - dosbarthwyd 18 o hysbysebion ac atafaelwyd un car yn Rhuthun. (2) Materion trwyddedu - peth anrhefn yn ardal Pwll y Grawys - posibilrwydd yn gysylltiedig ag adeilad Devine. Roedd yr adeilad yn agored o dan drwydded oedd yn bodoli yn wrthwynebol i drwydded newydd. Roedd ymddygiad gwrth cymdeithasol ac yfed dan oed yn cymryd lle. Roedd y trwyddedig yn gweithio gyda'r heddlu. Nid oedd unrhyw faterion pellach ynglŷn â'r Kings ar Stryd y Dyffryn. Ymchwiliadau i ddigwyddiadau yn cyn clwb yr RAFA diwedd 2014 wedi eu cwblhau a nifer o droseddwyr wedi eu prosesu ac are eu ffordd drwy'r llysoedd. (3) Llifeiriant o dorri i mewn i adeiladau di breswyl. Dau berson wedi ei harestio a chwiliad o'i tai wedi darganfod nifer o nwyddau wedi eu dwyn. Caniatawyd mechnïaeth i'r ddau - arestiwyd un am droseddu ymhellach tra ar fechnïaeth - mae'n debyg y bydd yn ddau yn dal i droseddu tan yr adeg y byddant yn y carchar. Atafaelwyd tri char yn ystod yr wythnos diwethaf.
(4) Staffio - nid oedd apwyntiad CBM i fod ar hyn o bryd. 4 PCSO ar hyn o bryd ac yn gweithio'n dda.
Ymatebodd yr Arolygydd Jones i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar (1) gorfodaeth cyffuriau, (2) troseddwr beic modur penodol yn Ninbych uchaf, (3) Adeilad trwyddedig Devine, (4) ceir yn parcio ar y palmant ar hyd Stryd y Dyffryn, (5) cynnau tanau bychain bwriadol.
Diolchodd y cadeirydd i'r Arolygydd Jones am ei bresenoldeb ac am yr adroddiad cynhwysfawr.

247 Materion Brys: Nid oedd unrhyw fater brys.

248. Datganiad Diddordeb Personol: Derbyniwyd y datganiadau canlynol

(1) Cyng Brian Davies - eitem agenda 8(1)(5) - cynllunio - Fferm Kilford.
(2) Cyng Geraint Williams - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda 9 - cymorthdaliadau - Cronfa Hen ac Anabl Dinbych.
(5) Cyng Raymond Bartley - eitem agenda 9 - cymorthdaliadau - Carnifal Dinbych.
(6) Cyng Margaret Bowe - eitem agenda 9 - cymorthdaliadau - Cronfa Hen ac Anabl Dinbych.
(7) Cyng Catherine Jones - eitem agenda 9 - materion yn codi - Cronfa Argyfwng R Arthur Jones.
(8) Cyng Catherine Jones - eitem agenda 9 - cymorthdaliadau - Carnifal Dinbych.

249. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 23ain 2015 a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Ebrill 13eg 2015.

250. Materion yn codi: 23.3.15: (1) Cofnod 232 - Cyfarfod Blynyddol. Cafwyd diweddariad gan glerc y dref. Hyd at y 27ain 168 yn mynychu. Trefnwyd lluniaeth gyda'r coleg ar gyfer 100 dros dro ar gost o £4.25 y pen - cytunwyd fod lluniaeth ar gyfer 100 yn ddigon. Cytunwyd gwneud trefniadau ar gyfer diodydd ysgafn. Cytunwyd fod y Cyng Roy Tickle yn eilio'r enwebiad y Cyng Bartley fel

Maer. Atgoffwyd yr aelodau am yr ymarfer nos lau 30ain am 6.30 o'r gloch ac i fod yn bresennol yn y siambr ar noson y cyfarfod blynyddol am 6.30 o'r gloch.

(2) Cofnod 227(4) - Eisteddfod y Coleg. Dywedodd y Cyng Bartley fod y digwyddiad wedi bod yn un llwyddiannus dros ben a derbyniwyd sylwadau fod y gosodiad yn neuadd y dref yn rhagorol. Diolchwyd yn gyhoeddus i'r cyngor tref am ei gyfraniad ariannol.

13.4.15: (3) Cofnod 237(3)(2) - Archwiliad Blynyddol. Dywedodd clerc y dref y bydd yr archwiliad mewnol yn cymryd lle bore dydd Mercher y 6ed o Fai am 10.30 o'r gloch. Roedd yr archwilydd allanol wedi cadarnhau na fyddai'r cyngor yn wynebu archwiliad canolog. Cyfeiriodd clerc y dref at y rhestr asedau fel ag yr oedd ar Fawrth 31ain 2015. Cymeradwywyd y rhestr.

(4) Cofnod 238(2)(3) - Clwb Bowlio y Parc Isaf. Cyfeiriodd clerc y dref at y gwahanol e-byst a newidiwyd yn dilyn llythyr y cyngor i'r clwb bowlio. Yn ystod y drafodaeth a gynhaliwyd dywedwyd nad oedd y clwb i weld yn help eu hun. Dylai'r clwb fod yn chwilio am nawdd - roedd clybiau eraill yn gwneud hyn. Awgrymwyd fod y clwb yn cyd-weithio a chlybiau eraill oedd gyda'r un anghenion a rhannu adnoddau. Roedd yn siomedig fod y clwb ddim yn teimlo fod y cyngor tref yn gynorthwyol.

(5) Cofnod 240(4) - Cronfa Argyfwng R Arthur Jones. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth yswirwyr y cyngor a gofynnodd am arweiniad gan y cyngor. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y cyngor tref yn cymryd cyfrifoldeb llawn am y fainc.**

(5) Cofnod 241 - Stryd Fawr Dinbych. Cafwyd adroddiad byr llafar gan y Cyng Margaret Bowe am y cyfarfod safle rhwng cynghorwyr a Peter Lea o GSDd, Trafodwyd y materion penodol. Roedd Peter Lea wedi dweud na fu unrhyw adroddiadau am ddamweiniau yn y man penodol. Awgrymwyd arolwg gan y cyngor tref ynglŷn ag adleoli'r mannau aros bysiau i'w lleoliadau gwreiddiol. Cafwyd trafodaeth pan fynegwyd nifer o sylwadau gwahanol. Yn y diwedd **Penderfynwyd fod y cyngor tref yn ysgrifennu at y Grŵp Ardal Aelodau Lleol gyda chais i'r grŵp ystyried y mater o adleoli'r mannau aros bysiau i'w lleoliadau gwreiddiol ac i'r mater gael ei gynnwys yng Nghynllun Tref Dinbych.**

(7) Cofnod 245(5) - Arwyddion yr A55. Cyfeiriodd clerc y dref at yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Ann Jones AC. Cytunwyd fod y cyngor tref yn cysylltu â Cadw fel yr awgrymwyd yn y llythyr.

251. Adroddiad y Maer. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Diolchodd y Maer i bawb oedd wedi cefnogi dawns y Maer. Codwyd dros £1,000. Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiad anghredadwy yn Ysgol Howell pan roedd 300 o Gristnogion yn bresennol - roedd bwriad i lwyfannu digwyddiad arall o'r fath yn Ysgol Howell yn yr haf.

252. Llythyrau a Hysbysiadau: 1. Cytunwyd i nodi un eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Trafodwyd a nodwyd y llythyr oddi wrth Roy Spilsbury i Ann Jones AC ynglŷn â chynllunio llwybr beicio yn Ninbych.

(2) Trafodwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth GSDd ynglŷn â chynhwysydd storio yn cynnwys offer chwarae a chwaraeon. Eglurodd clerc y dref fod y cynhwysydd a'r offer ar gael gan GSDd yn rhad ac am ddim ac ar gyfer cynghorau tref o fewn y sir. Roedd clerc y dref wedi cytuno dros dro i dderbyn y cynhwysydd. Roedd angen i'r cyngor tref wneud penderfyniad ar leoliad y cynhwysydd a phwy fyddai a chyfrifoldeb am yr offer. Cytunwyd i'r mater fod yn eitem agenda yng nghyfarfod nesaf y cyngor ac i'r cynghorwyr, yn y cyfamser, roddi awgrymiadau i glerc y dref.

(3) Ombwdsman - cyfarwyddyd diwygiedig ynglŷn â'r cod ymddygiad. Cytunwyd i nodi'r llythyr ac i'w adael mewn dirymedd ac i glerc y dref ystyried y cyfarwyddyd.

(4) E-bost oddi wrth Joseph Spiteri, Llywydd Trefi Caerog Ewropeaidd yn cynnwys llythyr ymddiswyddiad oddi wrth un o'r is lywyddion ynghyd a thrysorydd TCE a tair tref yn yr Iseldiroedd. Dywedodd clerc y dref tra bod peth o gynnwys y llythyr a rhywfaint o haeddiant roedd y penderfyniadau o'i fewn, diddymu'r cyfarfod gweithredol yn yr Iseldiroedd ym mis Mehefin a'r awgrymiad o gynnig i sefydlu grŵp arall, o'r lleiaf yn un oedd yn aflonyddu. Bydd angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Llywydd a'i ysgrifenyddiaeth ynglŷn â'r cam nesaf.

253. Cynllunio: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Tir cyfagos a Llyn Bran, Bylchau (gohiriwyd o 13.4.15)
(7 pleidlais o blaid gyda 4 ymataliad)
(2) 1, Ffordd y Ffair (7 pleidlais o blaid, 1 yn erbyn a 3 ymataliad)
(3) Pen y Cae, Ffordd Bodeiliog
(4) Tir yn Fferm Kilford, Ffordd Eglwyswen
(5) Beech House

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Cyn Ysbyty Gogledd Cymru cytunwyd, oherwydd maint y dogfennau oedd ynghlwm wrth y cais, i wneud cais am fwy o amser i ystyried y cais.

2. Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

Yn y man yma, yn anffodus, bu rhaid i'r cadeirydd, y Cyng Rob Parkes adael y cyfarfod am 7.58pm. O'r man yma ymlaen cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer, y Cyng Raymond Bartley.

254. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor (1) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

(1) Cae Dai - Gohiriwyd ymhellach am fwy o wybodaeth.
(2) Sioe Dinbych a Fflint 2015 - £250 (A.137)(Rhif siec 005604)
(3) Cronfa Hen ac Anabl Dinbych - £1,350(A.137)(Rhif siec 005605)
(4) Elite Martial Arts - £1,500(A.137)(Rhif siec 005606)
(5) Carnifal Dinbych - £3,000(A.137)(Rhif siec 005607)
(6) Gŵyl Ganol Haf Dinbych - £2,500(A.137)(Rhif siec 005608)
(Datganodd y Cyng Roy Tickle a Gaynor Woods ddiddordeb)
(7) Gwarchod Cymdogol Lyf Lôn - £200 (A.137)(Rhif siec 005609)
(Datganodd y Cyng Geraint Williams ddiddordeb)
(8) Clwb Bowlio Dinbych - £3,000(A.137)(Rhif siec 005610)
(9) Cymdeithas Dyffryn Clwyd - Eirin Dinbych - gohiriwyd am fwy o wybodaeth.
(10) Grŵp Busnes Dinbych - gohiriwyd am fwy o wybodaeth

Cymeradwywyd (yn unfrydol) yr argymhelliad ynglŷn â pholisi cymorthdaliadau i sicrhau fod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorthdaliadau yn y flwyddyn ariannol bresennol fel a ganlyn:

(1) Ceisiadau oddi wrth elusennau cenedlaethol - i barhau a'r polisi o £100 y cais ond i gadw rhagorfraint os byddai sefyllfa leol benodol neu argyfwng.
(2) Ceisiadau oddi wrth elusennau lleol - i barhau a'r polisi fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
(3) Uchafswm o **£1,500** i'w osod ar bob cais. I argymell fod pob cais i'w archwilio'n ofalus ac os bydd angen i ofyn am fwy o wybodaeth. Gellir ystyried grantiau am fwy na £1,500 os oedd y cais, yn dilyn archwiliad, yn cyfiawnhau'r grant uwch.

(4) Diwygiwyd yr argymhelliad fod rhaid i fantolen neu gyfrifon gael ei gynnwys gyda phob cais ac os nad oedd hyn ar gael fod angen eglurhad pam nad oedd hyn yn bod drwy ychwanegu'r eirfa "gydag eithriad i rif 1 uchod".

(5) Diwygiwyd yr argymhelliad fod pob grant a ganiateir oedd dros £1,000 bydd rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian. Yr adroddiad i'w yrru i'r cyngor tref o fewn 12 mis o ddyddiad y grant drwy amnewid "6 mis" yn lle 12 mis ac ychwanegu'r eirfa "ar ôl cwblhau'r digwyddiad / prosiect".

255. Adroddiadau: (1) Rheolaeth Neuadd y Dref. Ystyriwyd a derbyniwyd crynodeb fer ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Prosiect Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(3) Theatr Twm o'r Nant. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod rhywun wedi ceisio dwyn plwm oddi ar do'r theatr - yn ffodus ni wnaed unrhyw ddifrod.

(4) Dywedodd y Cyng Roy Tickle ei fod ef a'r Cyng Gaynor Wood wedi mynychu cwrs hyfforddi llywodraethwyr ysgol.

(5) CCTGC&ChC. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley ar gyfarfod diweddar o'r gymdeithas. Roedd y lleoliad ar gyfer y cyfarfod yn un gwael. Roedd rhan fwyaf o'r cyfarfod wedi ei neilltuo ar gyfer trafod y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol. Siomedig oedd y nifer yn mynychu.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

256. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams: (1) 7 o giatiau mochyn i'w adnewyddu ar lwybrau o amgylch Dinbych - ariannwyd gan GSDd. (2) Trefniadau yn cael eu gwneud i Dafarn y Guildhall i ddosbarthu tocynnau parcio i breswylwyr ar gyfer y meysydd parcio amser hir. (3) Cynigion i'w cyflwyno tuag at gael trwyddedau parcio i breswylwyr Lyf Lôn. (4) Gwahoddir enwebiadau gwobrwyo chwaraeon CSDd. (5) Ystyriaeth i fyrddau gwybodaeth digidol yng nghanol trefi'r sir.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Safle Kwik Save - Syrfeiwyr ar y safle yn paratoi cynigion. (2) Dau gae yn y Brwcws wedi eu dynodi gan yr arolygydd ar gyfer datblygiadau preswyl - drafft briff a drafft cyfarwyddyd cynllunio bellach wedi ei gwblhau - cyfarfod a'r trigolion i gymryd lle yn yr wythnosau nesaf. Roedd datblygwr a diddordeb yn y safle. (3) Cyfeiriodd y Cyng Bartley at farwolaeth diweddar Hywyn Williams a thalodd deyrnged iddo am ei amser fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu a Chymunedau. Cytunwyd i yrru llythyr o gydymdeimlad i Mrs Williams.

   Cododd y Cyng Philip Stevens y mater am y broses ymgynghoriad ynglŷn â Dolwen a chartrefi preswyl eraill yn Sir Ddinbych a gofynnodd i'r cyngor tref ysgrifennu at GSDd gyda chais am i'r ymgynghoriad gael ei ddileu tan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol gan fyddai ariannu ychwanegol hwyrach ar gael i arbed cau. Cytunwyd i yrru llythyr at Brif Weithredwr Sir Ddinbych gyda chopïau i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phil Gilroy Swyddog Gofal Oedolyn.

257. Cyfrifon 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

(1) Blachere Illuminations - costau gyrru offer yn ôl ar ôl tymor llogi - £147.60
(Rhif siec 005611)

(2)	Zen Internet Ltd - darpariaeth ADSL (Mai) (Rhif siec 005612)	-	£18.37
(3)	Clwyd Nash - ad-daliad costau prynu bocsys storfa ar gyfer yr archif gymunedol (Rhif siec 005613)	-	£14.99
(4)	Ernest Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P (Rhif siec 005614)	-	£60.00
(5	Cyng Raymond Bartley - costau teithio (Y Rhyl) (Rhif siec 005615)	-	£11.70

Cyfanswm taliadau: £252.66

2. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd proffil arian wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.38 o'r gloch.

Arwyddwyd:..... (cadeirydd)

Dyddiad:.....